Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 151 (Cy. 31)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ("y Rheoliadau Gosod Ffioedd") a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 ("y Rheoliadau Asesiad Ariannol").

Mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir ganddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd hefyd yn cynnwys darpariaethau cyfochrog sy'n nodi gofynion sy'n gymwys pan fydd awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu angen person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau Asesiad Ariannol yn gwneud darpariaeth o dan y Ddeddf ynghylch y ffordd y mae rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol o adnoddau ariannol person ("A") yn yr achosion a ganlyn:

– pan fo'r awdurdod yn tybio, pe bai'n diwallu anghenion A am ofal a chymorth (neu anghenion gofalwr am gymorth), y byddai'n gosod ffi o dan adran 59 o'r Ddeddf, neu
– pan fo'r awdurdod yn tybio, pe bai'n gwneud taliadau tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth (neu angen gofalwr am gymorth) drwy wneud taliadau uniongyrchol yn rhinwedd adran 50 neu 52 o'r Ddeddf, y byddai'n ei gwneud yn ofynnol i A dalu, ar

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ffurf ad-daliad (yn achos taliadau gros) neu gyfraniad (yn achos taliadau net), tuag at y gost o sicrhau'r ddarpariaeth honno o ofal a chymorth.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 13 o'r Rheoliadau Gosod Ffioedd (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) i gynyddu'r swm incwm wythnosol net o £43.90 i £44.65. Mae rheoliad 28 hefyd wedi ei ddiwygio i wneud newid cyfatebol ar gyfer derbynnydd taliadau uniongyrchol.

Mae rheoliad 3(a)(i) o'r offeryn yn diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol i ddiystyru unrhyw daliad a wneir i A gan y Weinyddiaeth Amddiffyn o dan Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol wrth gyfrifo cyfalaf oedolyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif 151 (Cy. 31)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Chwefror 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *13 Chwefror 2025* |
| *Yn dod i rym* | *7 Ebrill 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50, 52, 53(3), 61, 64(1), 64(2)(b), 66 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Ebrill 2025.

**Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015**

**2.** Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(**1**) 2014 dccc 4. *Gweler* adran 197(1) am y diffiniadau o "penodedig", "a bennir", "a bennwyd" a "rheoliadau".

(**2**) O.S. 2015/1843 (Cy. 271), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/330 (Cy. 59); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn rheoliad 13 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal), yn lle "£43.90" rhodder "£44.65";

(b) yn rheoliad 28 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal), yn lle "£43.90" rhodder "£44.65".

**Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015**

**3.** Yn Atodlen 2 (cyfalaf sydd i'w ddiystyru) i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015(**1**), ar ôl paragraff 41 mewnosoder—

> "**42.** Unrhyw daliad a wneir i A gan y Weinyddiaeth Amddiffyn o dan Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol, y gwneir taliadau odano i bersonau a gafodd eu diswyddo, eu rhyddhau neu eu gorfodi i ymddiswyddo oherwydd gwaharddiad ar aelodau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol o luoedd arfog y Goron rhwng 1967 a 2000."

*Dawn Bowden*
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
11 Chwefror 2025

(**1**) O.S. 2015/1844 (Cy. 272), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/214 (Cy. 58), O.S. 2019/234 (Cy. 53), O.S. 2022/99 (Cy. 35) ac O.S. 2023/67 (Cy. 12).